

Porthaethwy
Ynys Môn
LL59 5SS
Ffôn: (01248) 712287
e-bost: pennaeth.davidhughes@ynysmon.gov.uk



Menai Bridge
Isle of Anglesey
LL59 5SS
Tel: (01248) 712287
e-mail: pennaeth.davidhughes@anglesey.gov.uk

Pennaeth / Headteacher
H.Emyr Williams BSc, MEd

Coronafeirws

18^{fed} Mawrth 2020

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Yn dilyn y cyhoeddiad ddoe ynghylch â chadw pellter cymdeithasol er mwyn diogelu'r rheiny sydd â risg gynyddol o salwch difrifol gan Coronafeirws (COVID-19), hoffwn esbonio beth yw goblygiadau hyn i **Ysgol David Hughes**.

Rydym wedi adnabod nifer sylweddol o staff sydd yn hynod agored i niwed. Felly, er budd iechyd a lles ein staff, disgyblion a'r gymuned ehangach credaf nad oes dewis arall ond **cau'r ysgol ar gyfer disgyblion CA3 (Blynnyddoedd 7, 8 a 9) yn dechrau bore yfory, Dydd Iau Mawrth 19eg**. Byddwn yn parhau **AR AGOR i holl ddisgyblion CA4 a ChA5 (Blynnyddoedd 10, 11, 12 a 13)** a'r disgyblion **CA3** sydd â'u rhieni'n gweithio yn y Gwasanaethau Iechyd (Nyrsys, Doctoriaid, Gweithwyr Gofal, Plant Athrawon a Chymhorthyddion ac ati) a'r Gwasanaethau Brys (Heddlu, Gwasanaeth Tân ac ati). Byddwn yn parhau ar agor hefyd i ddisgyblion sydd yn derbyn **Cinio Ysgol yn Ddi-dâl**.

Yn dilyn y cyhoeddiad heddiw gan y Gweinidog Addysg, bydd safle'r ysgol ar gau i'r **holl ddisgyblion** o ddydd Llun y 23ain o Fawrth am gyfnod amhenodol. Bydd ein staff yn parhau i weithio er mwyn gosod gwaith a marcio aseiniadau'r disgyblion, yn bennaf trwy weithio ar-lein. Rwyf yn gwerthfawrogi nad yw hyn yr un peth â chyswllt wyneb yn wyneb, ond gallwch fod yn hyderus y byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi ein disgyblion drwy'r cyfnod anodd hwn.

Rydym yn ymwybodol bod trafodaethau yn digwydd ar hyn o bryd ar lefel genedlaethol gyda'r byrddau arholi, er mwyn cytuno ar weithdrefnau clir i ddelio â gwaith cwrs ac arholiadau a all gael eu methu o ganlyniad i gau ysgolion. Rydym yn disgwyl y bydd y trefniadau mwyaf addas yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau nad yw'r bobl ifainc dan unrhyw anfantais. Unwaith y cawn eglurder ar hyn byddwn yn eich diweddarau.

Yn y cyfamser, gwerthfawrogn fod y penderfyniad i gau yn mynd i gael effaith amlwg ar nifer o'n teuluoedd ac rwyf yn diolch i chi ymlaen llaw am eich cydweithrediad mewn amgylchiadau heriol.

Yn gywir

PENNAETH